SFLSCM109

Dewis dulliau trafnidiaeth ar gyfer nwyddau

Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â dewis dulliau trafnidiaeth ar gyfer nwyddau. Mae’n cynnwys cael a gwerthuso gwybodaeth yn ymwneud â’r nwyddau sydd yn cael eu cludo a dulliau trafnidiaeth sydd ar gael. Mae hefyd yn cynnwys dewis dulliau i fodloni manylebau, asesu buddion a risgiau, ymdrin â phroblemau a rhoi canlyniadau gwerthusiadau sydd yn cydymffurfio â gofynion.

Mae’r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallent fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg cludiant neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadarnhau'r wybodaeth am y nwyddau sydd yn cael eu cludo
2. cael gwybodaeth am y dulliau trafnidiaeth sydd ar gael ar gyfer y nwyddau
3. gwerthuso'r wybodaeth am addasrwydd y dulliau trafnidiaeth
4. dewis y dulliau trafnidiaeth sy'n bodloni manylebau'r nwyddau, y rhanddeiliaid allweddol ac unrhyw ofynion eraill
5. asesu buddion a risgiau defnyddio'r dulliau trafnidiaeth a ddewiswyd
6. nodi unrhyw fesurau diogeledd a bioddiogelwch ar gyfer y nwyddau angenrheidiol sydd yn cael eu cludo
7. nodi ac ymdrin â phroblemau gyda'r dulliau trafnidiaeth
8. rhoi canlyniadau'r detholiad i gydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol
9. cydymffurfio â'r holl weithdrefnau cyfreithiol, rheoliadol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch a sefydliadol perthnasol sydd yn angenrheidiol ar gyfer dewis dulliau trafnidiaeth
10. hyrwyddo cyfrifoldeb dros yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn y sefydliad a chyfathrebu a gweithredu hyn wrth ddewis dulliau dosbarthu ar gyfer nwyddau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â'r dulliau trafnidiaeth ar gyfer nwyddau
2. y mathau o ddamcaniaethau, modelau ac arferion rheoli cadwyn gyflenwi
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad am brosesau cadwyn gyflenwi a'r dulliau trafnidiaeth sydd ar gael ar gyfer symud nwyddau
4. y dulliau a'r gweithdrefnau perthnasol ar gyfer dewis dulliau trafnidiaeth addas ar gyfer y nwyddau
5. dulliau a gweithdrefnau trafnidiaeth eich sefydliad
6. y mathau o ddamcaniaethau, modelau ac arferion logisteg
7. y mathau o ddulliau a gweithdrefnau dadansoddi risg sydd ar gael i gynorthwyo gyda dewis dulliau trafnidiaeth ar gyfer y nwyddau
8. sut i nodi ac ymdrin ag unrhyw broblemau gyda dulliau dosbarthu
9. y mathau o ddamcaniaethau, modelau ac arferion cadwyn gyflenwi
10. y mathau o ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad
11. y gweithdrefnau cyfreithiol, rheoliadol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch a sefydliadol perthnasol yn ymwneud â dosbarthu nwyddau yn y gadwyn gyflenwi
12. sut i nodi unrhyw fesurau diogeledd a bioddiogelwch sydd yn angenrheidiol gan y nwyddau sydd yn cael eu dosbarthu
13. eich cyfrifoldebau chi a'ch sefydliad dros ddiogelu'r amgylchedd a gweithio'n gynaliadwy wrth ddosbarthu nwyddau yn y gadwyn gyflenwi

Geirfa

Cydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol, cwsmeriaid, cwmnïau trafnidiaeth

Nwyddau: unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sydd yn cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

Cadwyn gyflenwi: caffael, prynu a chyflenwi, logisteg, rheoli trafnidiaeth a gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

Trafnidiaeth: symud nwyddau neu adnoddau yn fewnol neu'n allanol o fewn y sefydliad, yn genedlaethol neu rhwng ffiniau rhyngwladol

Manylebau: set o ofynion i gael eu bodloni gan gynnyrch materol neu wasanaeth. Gallai manylebau fod yn fath o farchnad, y lleoliad, y math o nwyddau neu ofynion cwsmer.

Dewis dulliau trafnidiaeth ar gyfer nwyddau

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	SFLSCM109
Galwedigaethau perthnasol	Warws a Dosbarthu, Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu, Manwerthu a chyfanwerthu , Gweithwyr Cyswllt Proffesiynol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	trafnidiaeth; nwyddau; cadwyn gyflenwi